Heritage in Wales

Etifeddiaeth y Cymry



Cylchgrawn Aelodau Cadw, *Heritage in Wales / Etifeddiaeth y Cymry*, yw un o'r prif gyfryngau a ddefnyddir gennym i gyfathrebu gyda'n cynulleidfa o haneswyr brwd. Caiff ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ac mae ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dyma gylchgrawn 48 tudalen sy'n llawn newyddion a hanesion am ein 130 o safleoedd hanesyddol a mwy — mwy na digon i fodloni disgwyliadau uchel ein darllenwyr. Ceir amrywiaeth fawr o fewn ein cynulleidfa, o deuluoedd 2.4 o blant hyd at gyplau a'r henoed. Mae ein cylchgrawn yn cynnig cyfle arbennig i hysbysebwyr i gysylltu ag oddeutu 35,000 o ymwelwyr sy'n mwynhau tripiau gwych i'n henebion hyd a lled Cymru.

'Cadw' ein treftadaeth.

Fel rhan o Lywodraeth Cymru, rydym ni'n gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys henebion, cestyll, abatai, parciau hanesyddol, gerddi a thirweddau, ac archeoleg danddwr. Rydym ni'n diogelu treftadaeth Cymru, yn helpu pobl i ddeall a gofalu am eu hanes, ac yn cynnal cymeriad a nodweddion Cymru.

Darllenwyr

34,578 AELOD

18,784 AELODAETH

Lleoliadau ein darllenwyr



52% YNG NGHYMRU

43% YNG NGWEDDILL PRYDAIN

5% O DRAMOR

Caiff ei ddosbarthu hefyd i **gyrff treftadaeth yn y DU, staff Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad, ac Awdurdodau Lleol Cymru.**

Etifeddiaeth y Cymry: Rhifyn 67
Gaeaf 2018





OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36411